OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 202

# Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017

## RHAN 3

Rhedeg Practis Deintyddol Preifat

### PENNOD 4

Hysbysiadau sydd i Gael eu Rhoi i'r Awdurdod Cofrestru

**Hysbysiad o absenoldeb dros dro berson cofrestredig**

**26.**—(1) Pan fo—

(a) darparwr cofrestredig sy'n rheoli'r practis deintyddol preifat; neu

(b) rheolwr cofrestredig,

yn bwriadu bod yn absennol o'r practis deintyddol preifat am gyfnod parhaus o 28 o ddiwrnodau neu ragor, rhaid i'r person cofrestredig roi hysbysiad ysgrifenedig i swyddfa briodol yr awdurdod cofrestru.

(2) Ac eithrio yn achos argyfwng, rhaid i'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1) gael ei roi heb fod yn hwyrach nag un mis cyn dechrau'r absenoldeb arfaethedig, neu o fewn unrhyw gyfnod byrrach y cytunir arno â'r awdurdod cofrestru a rhaid i'r hysbysiad bennu, mewn cysylltiad â'r absenoldeb—

(a) ei hyd neu ei hyd disgwyliedig;

(b) y rheswm drosto;

(c) y trefniadau sydd wedi eu gwneud ar gyfer rhedeg y practis deintyddol preifat;

(d) enw, cyfeiriad a chymwysterau'r person a fydd yn gyfrifol am y practis deintyddol preifat yn ystod yr absenoldeb hwnnw; ac

(e) y trefniadau sydd wedi, neu y bwriedir, eu gwneud ar gyfer penodi person arall i reoli'r practis deintyddol preifat yn ystod yr absenoldeb hwnnw, gan gynnwys erbyn pa ddyddiad y bwriedir gwneud y penodiad hwnnw.

(3) Pan fo'r absenoldeb yn codi o ganlyniad i argyfwng, rhaid i'r person cofrestredig roi hysbysiad o'r absenoldeb o fewn un wythnos i'r argyfwng ddigwydd, gan bennu'r materion a nodir yn is-baragraffau (a) i (e) o baragraff (2).

(4) Pan fo—

(a) darparwr cofrestredig sy'n rheoli'r practis deintyddol preifat; neu

(b) rheolwr cofrestredig,

wedi bod yn absennol o'r practis deintyddol preifat am gyfnod parhaus o 90 o ddiwrnodau neu ragor, ac nad yw hysbysiad wedi cael ei roi i swyddfa briodol yr awdurdod cofrestru am yr absenoldeb, rhaid i'r person cofrestredig roi hysbysiad ysgrifenedig i'r swyddfa honno, cyn gynted ag y bo'n ymarferol gwneud hynny, gan bennu'r materion a nodir yn is-baragraffau (a) i (e) o baragraff (2).

(5) Rhaid i'r person cofrestredig hysbysu swyddfa briodol yr awdurdod cofrestru bod person a grybwyllir yn is-baragraff (a) neu (b) o baragraff (4) wedi dychwelyd i'r gwaith, heb fod yn hwyrach na 7 niwrnod ar ôl y dyddiad y mae'r person hwnnw yn dychwelyd i'r gwaith.